

Deall y Llwybrau at Gynnwys Treisgar Ar-lein ymysg Plant

**Adroddiad Ymchwil Ansoddol
Mawrth 2024**

Awduron: Family Kids & Youth

Tabl Cynnwys

Rhagair Ofcom	3
Crynodeb gweithredol	5

Rhagair Ofcom

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y llwybrau sy'n arwain at blant yn dod ar draws cynnwys treisgar ar-lein, yr effaith y gall hyn ei chael, a'r canfyddiadau a'r defnydd o fesurau diogelwch.

Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu yn y DU ac mae ganddo ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a diogelwch ar-lein. Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') yn cynnwys y gofyniad i wasanaethau sydd o fewn y cwmpas gael systemau a phrosesau ar waith sydd wedi'u dylunio i ddiogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt.

Mae cynnwys sy'n niweidiol i blant yn cael ei rannu'n dri chategori yn y Ddeddf – cynnwys prif flaenoriaeth, cynnwys blaenoriaeth a chynnwys heb ei ddynodi. Mae'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau mewn perthynas â mathau penodol o gynnwys niweidiol. Mae cynnwys treisgar yn gynnwys blaenoriaeth. Comisiynwyd yr ymchwil hon wrth i'r Bil Diogelwch Ar-lein fynd rhagddo drwy brosesau seneddol. Er bod Ofcom yn ymwybodol ei bod yn debygol y byddai cynnwys treisgar yn cael ei ystyried yn 'gynnwys blaenoriaeth', nid oedd y diffiniad o'r math hwn o gynnwys, sydd bellach wedi'i gynnwys yn y Ddeddf, wedi cael ei gadarnhau. Roedd yr ymchwil felly'n defnyddio dull a oedd yn cael ei arwain gan gyfranogwyr, gyda chyfranogwyr yn disgrifio'r hyn roeddent yn ei ystyried yn gynnwys treisgar. O ganlyniad, efallai y bydd rhywfaint o'r cynnwys sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn sydd yn y Ddeddf ac yng nghanllawiau arfaethedig Ofcom ar gynnwys sy'n niweidiol i blant.¹

Pan ofynnwyd beth oedd cyfranogwyr yn ei ystyried yn gynnwys treisgar, soniodd rhai am gynnwys a fyddai'n debygol o fod yn gynnwys anghyfreithlon (er enghraifft cynnwys sy'n ymwneud ag ymosodiadau rhywiol a therfysgaeth). Cafodd nodyn ei wneud pan gafodd y math hwn o gynnwys ei grybwyll, ond cafodd cyfweliadau a gweithdai eu cymedroli i sicrhau nad oedd y cynnwys hwn yn cael ei archwilio ymhellach, gan ei fod y tu allan i gwmpas yr ymchwil. Roedd rhai categorïau o gynnwys treisgar, fel trais sy'n gysylltiedig â gangiau, yn cynnwys rhywfaint o gynnwys a fyddai'n debygol o fod o fewn y cwmpas a rhywfaint a fyddai'n debygol o fod yn anghyfreithlon. Yn yr achosion hyn, mae trafodaeth ar gynnwys sy'n debygol o fod yn anghyfreithlon wedi cael ei chadw i adlewyrchu trafodaeth gyflawn y categorïau cynnwys.

Mae'r holl ganfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau plant a gweithwyr proffesiynol a gafodd eu cyfweld, nid Ofcom na Family Kids and Youth. Mae'r

¹ Mae'r Ddeddf yn diffinio cynnwys treisgar fel a) Cynnwys sy'n annog, yn hyrwyddo neu'n darparu cyfarwyddiadau ar gyfer gweithred o drais difrifol yn erbyn person b) Cynnwys sy'n dangos trais difrifol gwirioneddol neu realistig yn erbyn person; sy'n dangos anaf difrifol gwirioneddol neu realistig person mewn manylder graffig c) Cynnwys sy'n dangos trais difrifol gwirioneddol neu realistig yn erbyn anifail; sy'n dangos anaf difrifol gwirioneddol neu realistig anifail mewn manylder graffig; sy'n portreadu trais difrifol yn erbyn creadur ffuglennol neu anaf difrifol creadur ffuglennol yn realistig.

adroddiad yn cynnwys profiadau cyfranogwyr a'u canfyddiadau o wahanol swyddogaethau llwyfannau, gan gynnwys mesurau neu nodweddion diogelwch posibl. Nid yw awgrymiadau'r cyfranogwyr o'r hyn y dylid ei wella wedi cael eu hasesu gan y tîm ymchwil ac ni ddylid eu hystyried yn ddilysiad o ddichonoldeb technegol, cymesuredd nac effeithiolrwydd yr atebion a awgrymir. Nid yw safbwyntiau cyfranogwyr chwaith wedi cael eu dilysu i sicrhau eu bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r swyddogaethau neu'r prosesau diogelwch a ddefnyddir gan y llwyfannau a grybwyllwyd gan gyfranogwyr. Mae rhai o'r plant yn yr astudiaeth o dan 13 oed (yr oedran y mae llawer o wasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu mynediad i blant) ac yn dweud eu bod wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn a dod ar draws cynnwys treisgar.

Cyfeirir at lwyfannau ar-lein penodol drwy gydol yr adroddiad sy'n adlewyrchu barn a phrofiadau'r cyfranogwyr. Ni ddylid dehongli hyn fel arwydd o gyffredinrwydd neu darddiad cynnwys treisgar ar-lein ar lwyfannau penodol, ond yn hytrach fel arwydd o'r llwyfannau a ddefnyddir gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil, a'u profiadau.

Fel mesur diogelu, nid yw disgrifiadau o hashnodau, geiriau/termau penodol ac artistiaid a dylanwadwyr y mae plant wedi dweud wrthym y gallent eu cysylltu â chynnwys niweidiol ar-lein wedi cael eu nodi yn yr adroddiad.

Comisiynwyd yr ymchwil hon i adeiladu sylfaen dystiolaeth Ofcom ynghylch sut mae plant yn dod ar draws cynnwys treisgar ar-lein. Ni ddylid ystyried y canfyddiadau yn adlewyrchiad o unrhyw safbwynt polisi y gallai Ofcom ei fabwysiadu fel rhan o'n rôl fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Cafodd Family Kids and Youth ei chomisiynu gan Ofcom i gynnal ymchwil i archwilio'r llwybrau sy'n arwain at blant yn dod ar draws cynnwys treisgar ar-lein. Roedd yr ymchwil yn cynnwys dau grŵp ffocws gyda gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys athrawon, arbenigwyr sy'n gweithio gyda phlant agored i niwed, a gweithwyr cymdeithasol ieuencid), 15 o weithdai yn yr ysgol gyda chyfanswm o 232 o blant 8-17 oed o bob cwr o'r DU, a 15 o gyfweiliadau manwl gyda phlant 12-16 oed y nodwyd eu bod wedi cael profiad uniongyrchol o gynnwys treisgar. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023.

Y Prif Ganfyddiadau

Trosolwg o gynnwys treisgar ar-lein

Dywedodd plant fod dod ar draws cynnwys treisgar yn 'anochel'

Dywedodd yr holl blant yn y gweithdai eu bod wedi dod ar draws rhyw fath o gynnwys treisgar ar-lein. Er nad oedd yr holl blant y siaradon ni â nhw yn gweld yr un mathau o gynnwys treisgar, dywedodd pob un ohonynt fod dod ar draws cynnwys treisgar yn rhan anochel o fod ar-lein.

Roedd plant wedi gweld cynnwys treisgar yn yr ysgol gynradd i ddechrau, ac roedd y cynnwys a ddisgrifiwyd gan blant hŷn yn fwy treisgar o lawer

Daeth gwahanol risgiau i'r amlwg i blant o wahanol rywiau a grwpiau oedran. Plant yn eu harddegau cynnar neu ganol (13-15 oed), ac yn enwedig bechgyn, oedd yn rhannu cynnwys treisgar yn bennaf oherwydd eu dymuniad i 'ffitio mewn', a phoblogrwydd canfyddedig y cynnwys. Roedd yn ymddangos bod plant hŷn (16-17 oed) yn fwy ansensitif i'r cynnwys treisgar roeddent yn dod ar ei draws ac yn llai tebygol o'i rannu.

Roedd plant wedi gweld amrywiaeth eang o gynnwys treisgar, a hynny'n bennaf drwy gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau rhannu fideos a negeseuon

Dywedodd plant eu bod yn dod ar draws cynnwys treisgar ar gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau rhannu fideos a negeseuon yn bennaf, gyda llawer yn dweud bod hyn yn digwydd cyn iddynt gyrraedd yr oed ieuengaf i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Dyma gafodd ei ddisgrifio amlaf gan y plant: trais mewn gemau; ymladd mewn ysgolion lleol ac ar y stryd; gwahaniaethu ar lafar; ymladd proffesiynol; a thrais mewn ffilmiau, ar y teledu ac mewn adroddiadau newyddion. Cyfeiriodd plant hefyd at enghreifftiau eraill o gynnwys treisgar roeddent wedi'i weld yn llai aml, ond a oedd yn fwy eithafol, fel cynnwys treisgar sy'n gysylltiedig â gangiau. Soniodd llawer o blant am gynnwys sy'n ymwneud â chreulondeb at anifeiliaid, ond roedd y drafodaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar un darn penodol o gynnwys.

Llwybrau at gynnwys treisgar ar-lein

Roedd llawer o blant yn dod ar draws cynnwys treisgar heb chwilio amdano

Cafodd nifer o swyddogaethau llwyfannau eu nodi mewn cysylltiad â sut roedd plant yn dod ar draws cynnwys treisgar yn anfwriadol. Roedd y rhain yn cynnwys: systemau argymell;

negeseuon (gan gynnwys negeseuon grŵp); straeon, postïadau a ffrydiau byw; tagio cynnwys; hyperddolenni; cysylltiadau defnyddwyr; tagio defnyddwyr; a pheiriannau chwilio. Yr hyn a gafodd ei grybwyll amlaf gan blant oedd systemau argymell a swyddogaethau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gyfathrebu â'i gilydd.

Roedd lleiafrif o blant yn mynd i chwilio am gynnwys treisgar

Roedd hyn yn cael ei grybwyll amlaf gan blant 13-15 oed, ac yn enwedig bechgyn. Dywedodd y plant eu bod yn chwilio am gynnwys penodol roeddent wedi clywed amdano, er enghraifft ar lafar yn ystod y diwrnod ysgol, pan oedd y cynnwys yn trendio/wedi mynd yn feirol, neu pan oedd sôn amdano gan ddylanwadwyr neu mewn sylwadau ar-lein. Nodwyd nifer o swyddogaethau llwyfannau mewn cysylltiad â sut roedd y plant hyn yn ymgysylltu â chynnwys treisgar, fel: chwilio (ar y llwyfan a gwasanaethau chwilio); systemau argymell; cyfrifon preifat wedi'u neilltuo i gynnwys treisgar; negeseuon grŵp; straeon a negeseuon; a thagio cynnwys.

Roedd cymhellion cryf i blant rannu cynnwys treisgar, sy'n creu cylch lle mae plant eraill wedyn yn fwy tebygol o ddod ar ei draws

Dywedodd llawer o blant bod rhannu cynnwys treisgar yn ffordd o ddiogelu eu hunain rhag cael eu heithrio gan eu cyfoedion a'u labelu fel bod yn 'wahanol'. Dywedodd llawer hefyd eu bod yn rhannu cynnwys treisgar er mwyn dod yn fwy poblogaidd oherwydd y lefelau uchel o ymgysylltu roeddent yn teimlo y byddai cynnwys treisgar yn ei greu fel arfer. Disgrifiodd y plant ddefnyddio nifer o swyddogaethau i rannu cynnwys treisgar, a oedd yn cynnwys: negeseuon (gan gynnwys negeseuon grŵp, negeseuon uniongyrchol a negeseuon â chyfyngiad amser); straeon a negeseuon; tagio defnyddwyr; a sgrinluniau a recordio.

Effaith dod ar draws cynnwys treisgar ar-lein

Dod ar draws cynnwys treisgar wedi cael amrywiaeth o effeithiau seicolegol ar blant

Disgrifiodd plant yn eu harddegau cynnar (10-14 oed) eu bod yn teimlo pwysau gan gyfoedion i wylïo cynnwys treisgar ac i'w weld yn 'ddoniol', a bod peidio â gwneud hynny'n arwain at ofn y bydd eu grŵp cyfoedion yn cefnu arnynt. Roeddent yn disgrifio teimlo'n 'euog' am wylïo cynnwys a oedd yn peri gofid iddynt, ac am beidio â rhoi gwybod amdano. Mynegodd gweithwyr proffesiynol bryder hefyd fod cynnwys treisgar yn effeithio ar iechyd meddwl plant. Roedd gweithwyr proffesiynol a phlant yn credu bod plant yn dod yn fwy a mwy ansensitif i gynnwys treisgar.

Gall dod ar draws cynnwys treisgar arwain at ymddygiad osgoi mewn plant

Disgrifiodd gweithwyr proffesiynol sut roeddent wedi sylwi bod dod ar draws cynnwys treisgar yn gyson, yn enwedig cynnwys treisgar sy'n gysylltiedig â gangiau, yn cyfrannu at blant yn mynd i'w cragen yn gymdeithasol ac yn gorfforol. Roeddent yn disgrifio sut byddai plant yn aros gartref i deimlo'n ddiogel ac yn colli allan ar addysg oherwydd eu bod yn credu eu bod yn debygol o wynebu trais tebyg i'r hyn roeddent yn ei weld ar-lein yn aml.

Roedd gweithwyr proffesiynol yn credu bod rhai nodweddion a allai wneud rhai plant yn fwy tebygol o ymgysylltu â chynnwys treisgar ar-lein a bod hwnnw'n effeithio arnynt

O'u profiad nhw, tynnodd gweithwyr proffesiynol sylw at nifer o grwpiau o blant a allai, yn eu barn nhw, fod mewn mwy o berygl o gynnwys treisgar. Roedd y rhain yn cynnwys: plant â

diffyg goruchwyliaeth gan rieni neu blant a allai fod yn wynebu ansefydlogrwydd gartref; plant o gefndiroedd difreintiedig; plant sydd â phroblemau iechyd meddwl neu drawma sy'n bodoli'n barod; plant sy'n niwrowahanol.

Mesurau diogelwch a rôl llwyfannau

Roedd llawer o blant yn deall swyddogaethau rhoi gwybod ond nid oeddent yn eu defnyddio

Roedd gan lawer o blant yn yr ymchwil ddiffyg ymddiriedaeth yn y system rhoi gwybod neu wneud adroddiad. Er bod llawer yn deall sut i roi gwybod, nid oeddent yn credu y byddai'r broses yn ddienw nac y byddai unrhyw ganlyniadau i'r rhai sy'n postio cynnwys treisgar. Soniodd plant am broblemau gyda hyd y broses rhoi gwybod a'r diffyg adborth wedyn, er enghraifft ynghylch gwybodaeth am ganlyniadau eu hadroddiad ar y defnyddiwr a bostiodd y cynnwys.

Roedd rhwystrau ymddygiadol ac agweddol i roi gwybod, yn enwedig o ran 'diwylliant bod yn snitsh' a phwysau gan gyfoedion i ymgysylltu â chynnwys treisgar

Esboniodd y plant sut roedd pwysau gan gyfoedion i ymgysylltu â chynnwys treisgar a'i weld yn 'ddoniol' yn lleihau eu tebygolrwydd o roi gwybod amdano, gan eu bod yn ofni cael eu 'dal allan'. Roedd 'diwylliant bod yn snitsh' yn rhwystr arall a adroddwyd, a dywedodd plant hŷn (dros 16 oed) fod y ffaith eu bod yn ansensitif i gynnwys treisgar yn golygu nad oeddent yn ystyried rhoi gwybod amdano yn aml.

Roedd y plant yn wylidwrus ynghylch defnyddio mesurau diogelwch a fyddai, yn eu barn nhw, yn cyfyngu ar eu profiad ar-lein, ond roedd ganddynt awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

Roedd y plant yn credu y dylent allu rhoi gwybod am gynnwys treisgar heb iddi fod yn bosibl gwybod pwy ydyn nhw, ac roeddent am i'r broses fod yn haws ac yn symlach. Roeddent yn awgrymu cael un botwm rhoi gwybod a oedd yn amlwg ar draws pob llwyfan. Roedd gweithwyr proffesiynol a phlant yn cefnogi cymedroli cynnwys, ond roeddent yn credu nad yw gwasanaethau'n gwneud digon ar hyn o bryd. Roedd gweithwyr proffesiynol yn galw am reolau llymach ar gyfer gorfodi gofynion isafswm oedran ar lwyfannau.

Mae gweithwyr proffesiynol a phlant yn credu bod gan lwyfannau gyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag cynnwys treisgar

Roedd y plant a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ei gwneud yn glir eu bod am i'r rhyngwyd fod yn lle diogel i blant. Dywedodd llawer eu bod yn meddwl ar hyn o bryd bod yn rhaid iddynt ddibynnu arnynt eu hunain i aros yn ddiogel ar-lein, yn hytrach nag ar yr oedolion sy'n gyfrifol. Mynegodd gweithwyr proffesiynol bryder eu bod bob amser yn teimlo 'un cam ar ei hôl hi' a dim ond dod yn ymwybodol o gynnwys treisgar pan fydd yn rhy hwyr, a bod llawer o blant eisoes wedi'i weld.